

Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol

Sunday, January 5, 2020 1:00 PM


Enw: Alyssa Williams

Rhif Myfyriwr: 1301110

Llwybr: TAR Cynradd

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hon
Targed 1	1. Edrychwch ar ganllawiau cyfeirnod Harvard eto a'u cymhwyso'n gyson drwy brawf-ddarllen eich gwaith.	Sicrhau fy mod yn darllen canllawiau cyfeirnod Harvard, a prawf-ddarllen fy ngwaith yn fwy trylwyr
Targed 2	2. Ehangwch ystod eich darllen.	Ceisio darllen fwy o lyfrau, yn ogystal ag erthyglau ac astudiaethau
Targed 3	3. Datblygwch may o feirniadaeth yn eich ysgrifennu, yn hytrach na bod yn rhy ddisgrifiadol.	Sicrhau fy mod yn ceisio ysgrifennu'n fwy beirniadol ac nid ddisgrifio beth mae'r dyfyniad yn dweud

Linc i OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1301110_student_uowtsd_ac_uk/EqM3RNRILo9Fh0O9e6nuNH4Bg3BQpGckRo2egCeypZpapw?e=m0bCcX



Mae'r esiampl uchod yn dangos gwaith traws cwricwlaidd o wers lle wnes i ddysgu plant dosbarth derbyn am Ddiwrnod y Cofio ac am y Pabi Coch a beth mae'n symboleiddio. Wnaeth y plant ddysgu am y diwrnod pwysig yma mewn hanes, wedyn peintio pabi coch eu hun. Yna, gan ddibynnu ar y grŵp gallu, wnaethon nhw ysgrifennu ar waelod y dudalen am y Pabi, yn cyfuno hanes (dyniaethau), celfyddydau mynegiannol, a llythrennedd. Wnes i benderfynu gwneud hwn oherwydd tasg y plant oedd peintio'r Pabi gan ddefnyddio'r lliwiau cywir, oedd yn dangos bod nhw wedi dysgu a gwrando ar gyfarwyddiadau'r dasg. Tasg y grŵp gallu cryfach yw'r dasg a ddangosir uchod, a wnes i benderfynu cael y plant i ysgrifennu o dan y llun i gael nhw i ymarfer ysgrifennu ar y llinell, ysgrifennu o'r chwith i'r dde ar bob llinell, a hefyd i roi blwch bys rhwng geiriau (sydd yn gydfyd a'r cynllun marcio). Teimlais fod hwn wedi gweithio'n effeithiol gan fod yn ymarfer da i'r plant, ac erbyn diwedd y dasg oedden nhw'n cofio'r rheolau ysgrifennu, ac yn cofio am y pabi a'r rheswm tu ôl y pabi wrth i mi gwestiynu tra bod y dasg yn mynd ymlaen.



Mae'r llun uchod yn dangos esiampl draws gwricwlaidd o wers Iechyd a Lles/Llythrennedd wnes i ddysgu i ddosbarth derbyn. Ffocws y wers oedd diogelwch tân gwyllt gan fod y wers ar y 5ed o Dachwedd, felly wnes i greu poster gyda 'rheolau' cadw'n ddiogel ar noson tân gwyllt, gyda rhai wedi eu hychwanegu gan y plant. Tasg ffocws y wers, fel y dangosir yn yr esiampl uchod, oedd tynnu llun un o'r rheolau, wedyn ysgrifennu'r rheol uwch ben y llun. Roedd y wers yma ar fy ail ddiwrnod o addysgu, a themlais fy mod i heb wahaniaethu'r dasg digon da ar gyfer y grwpiau gallu mwyaf gwan. Roedd y plant yn y grŵp gallu cryfach wedi gwneud y dasg ac ysgrifennu brawddegau llawn gyda chymorth, ond roedd rhaid i mi newid y dasg wrth i ni wneud hi ar gyfer y grwpiau mwyaf gwan am fod rhai o'r plant yn ffeindio'n anodd. Wnes i ddysgu llawer am wahaniaethu ac am allu'r plant yn y wers yma, felly oedd yn wers lle wnes i ddatblygu.



Mae'r llun uchod yn dangos esiampl draws gwricwlaidd o wers Dyniaethau/Rhifedd. Dros yr

wythnosau yn arwain at y wers yma, roedd plant y dosbarth derbyn wedi bod yn dysgu am Stori'r Geni, a hefyd am siapau 2D, felly wnes i gyfuno'r ddau ar gyfer y dasg yma. Roedd y dasg yma ar gyfer y grŵp glas, sef y grŵp cryfach yn y dosbarth, am fy mod yn teimlo bod creu'r olygfa allan o siapau yn ychydig yn anodd ar gyfer y grwpiau eraill, heblaw am un neu ddau yn y grŵp melyn (y grŵp canol) a wnaeth y dasg hefyd. Wnaethon nhw fwynhau ymarfer eu sgiliau torri a gludo, a chreu golygfa Stori'r Geni allan o'r siapau. Roedd hefyd angen iddyn nhw labelu'r siapau (ni ddangosir hwn yn y lluniau) ac roedd rhaid iddyn nhw wneud hwn yn annibynnol, a wnaethon nhw lwyddo. Ar y cyfan roedd y dasg wedi gweithio'n effeithiol, yn enwedig i'r sawl o'r grŵp melyn wnaeth y dasg, am fod hwn wedi gwthio nhw'n fwy nag arfer. Gallodd y plant dweud wrtha i wrth wneud y dasg hefyd pwy oedd pwy, neu beth oedd beth, e.e Mair, Joseff, Baban Iesu, preseb, stabl, seren.

15 munud Sesiwn Gloi	Amser tacluso Ar ôl tacluso, plant yn casglu ar y carped. Gofyn eto cwestiynau am Guto Ffowc – gofyn cwestiynau effeithiol fel “Pwy yn hwn?”, “Beth yw enw’r dyn yma?”, “Beth oedd y dyn yma a’i ffrindiau angen gwneud?”, “Wnaeth e lwyddo?”, “Beth ydyn ni’n neud i ddathlu bod Guto Ffowc heb lwyddo?” Dangos y Power Point eto i weld os ydyn nhw yn iawn- gofyn wrth weld y lluniau “Beth yw enw’r dyn yma eto?”, pan mae llun y Brenin gofyn “Pwy yw hwn?” a sicrhau bod nhw’n defnyddio’r eirfa gywir, a defnyddio’r geiriau Cymraeg, h.y. ‘Brenin’ nid ‘King’ a.y.b. Os oes amser, Tric a Chlic gyda llythrennau fel G, Ff, T, D (Guto, Ffowc, Tân, Drwg a.y.b.)	Tacluso’r dosbarth Cofio nôl i ddechrau’r wers ac ateb cwestiynau gan ddefnyddio’r eirfa gywir. Gallu dangos dealltwriaeth o stori Guto Ffowc a gallu adrodd y stori yn ôl ata i yn y drefn gywir, neu yn gallu ateb cwestiynau ynglŷn â beth oedd yn dod nesaf yn y stori, eto yn defnyddio’r eirfa gywir, neu os nad ydyn yn gallu cofio, gan ddefnyddio’r geiriau Saesneg. Adnabod llythrennau a dweud gair perthnasol sy’n dechrau gyda’r llythrennau Tric a Chlic	Cardiau Tric a Chlic Power Point Guto Ffowc
--	---	---	---



Dangosir y llun uchod manylion y sesiwn gloi o wers wnes i ddysgu i’r dosbarth derbyn. Roedd hwn yn wers ynglŷn â Guto Ffowc a’r plot i chwythu’r Senedd. Ar ddiwedd y wers wnes i gasglu’r plant ar y carped i ofyn cwestiynau iddyn nhw ynglŷn â beth wnaethon nhw ddysgu. Y dull asesu ar gyfer dysgu wnes i ddefnyddio oedd adfyfrio ar ddiwedd y wers, a gofyn i’r plant adrodd yn ôl beth oedd stori Guto Ffowc, gan ddefnyddio cwestiynau effeithiol a ddangosir uwchben. Roedd hwn yn effeithiol iawn gan ei bod yn fy ngalluogi i weld pwy oedd yn ateb y cwestiynau i gyd, a phwy oedd wedi deall y wers, a hefyd pwy oedd angen ychydig mwy o help. Hefyd, drwy ail ddangos y Power Point wnes i greu, wnaeth hwn helpu atgoffa’r plant ac oedd yn helpu atgoffa’r rhai oedd yn ffeindio’n fwy anodd.

Cynllun Gwers – Cam 1 Gwerthuso’r Profiad Dysgu (cynhwyswch gyfeiriadau at SAC)

Gwerthuso’r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu	
Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu dros amser)	Mae’r grŵp gwan nawr yn gallu ysgrifennu’r rhifau yn well ac yn fwy taclus Maen nhw’n gallu adnabod trefn rhifau yn well a threfni nhw eu hun yn well. Wnaethon nhw ddangos bod nhw’n gallu sylwi ar rifau oedd wedi eu hysgrifennu’n anghywir (fi yn ysgrifennu’n anghywir a nhw’n cywiro) neu rifau yn y drefn gywir (eto fi yn ysgrifennu yn y drefn anghywir, a nhw yn cywiro a dweud wrtha i beth oedd y drefn gywir) Teimlaff fod angen cadw sesiynau sydd uniongyrchol gyda’r grŵp coch yn fyrrach am eu bod nhw ddim yn gallu canolbwyntio mor hir ac maen nhw’n diflasu gyda’r gwaith yn gyflymach.

Yn y wers yma, wnes i weithio gyda grŵp mwyaf gwan y dosbarth derbyn, y grŵp coch. Sylwais fod y grŵp yma yn ffeindio’n anoddach i ddeall trefni’r rhifau, felly wnes i wers ychwanegol gyda nhw. Wnaethon ni eistedd ar y carped a defnyddio’r bwrdd gwyn, ac roedden nhw’n ateb cwestiynau, ac yn cael tro yn ysgrifennu rhifau ar fyrddau gwyn bach. Y dull aagd wnes i ddefnyddio oedd ysgrifennu rhifau yn anghywir a’r plant yn cywiro, a gofyn iddyn nhw esbonio pam ei bod yn anghywir, a gweld os oedden nhw’n gallu sylwi ar y camgymeriadau. Teimlais fod hwn yn effeithiol yn enwedig gyda’r grŵp coch, am eu bod nhw’n gorfod meddwl yn fwy am y

cwestiwn am mai dim ond nhw oedd yna, a ddim y grwpiau cryfach i ateb y cwestiynau i gyd. Hefyd, roedd y plant yn cywiro gwallau yn effeithiol am ei bod yn fy ngalluogi i weld beth oedden nhw'n gwybod yn barod, a beth oedd angen gwneud fwy o waith arno mewn gwersi yn y dyfodol.





Mae'r lluniau uchod yn dangos rhai o nodweddion y cynllun marcio yn y dosbarth derbyn. Dangosir yr ail lun sut wnes i farcio darn o waith, gan ddefnyddio sticeri 'Ffranc Ffurio'n Gywir', a 'Bili Bwlch Bys', a'r lliwiau pinc a gwyrdd. Mae'r 'GC' yn dangos bod y gwaith wedi cael ei wneud gyda chymorth. Mae'r plant yn ymwybodol o'r cynllun marcio, ac maen nhw'n gwybod bod pinc yn meddwl perffaith a bod gwyrdd yn meddwl bod angen gwella. Ar ôl i'r plentyn orffen y gwaith, oeddwn yn gofyn iddyn nhw beth oedd peth da, a beth oedd angen gwella. Teimlais fod gofyn iddyn nhw beth oedd yn pinc perffaith a beth oedd yn wyrdd yn dangos i fi bod nhw'n gallu gweld gwallau yn ei gwaith, a bod nhw'n ymwybodol beth sydd angen gwella. Maen nhw hefyd yn gwybod y cymeriadau fel Ffranc a Bili, felly pan maen nhw'n gweld y sticeri maen nhw'n gwybod beth maen nhw'n eu golygu.

Defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gannwys dysgu uniongyrchol

Thursday, 19 December 2019 12:14



Dangosir y llun uchod siart ymddygiad un o'r plant yn y dosbarth. Mae ymddygiad y plentyn yn y dosbarth gallu bod yn wael, gyda fe'n cicio, yn cnoi ac ateb staff yn ôl. Roedd camau a rheolau ymddygiad yr ysgol ddim yn gweithio ar y plentyn, felly wnes i a'r athrawes ddosbarth trafod a phenderfynu creu siart ymddygiad iddo. Pan oedd ymddygiad y plentyn yn wael, oedd yn colli dinosor, ond oedd yn bosib iddo ennill dinosor yn ôl drwy ymddygiad da. Os oedd y plentyn yn gorffen y dydd gyda 4 dinosor ar y siart, oedd yn cael gwobr fach adref. Roeddwn yn ansicr os oedd y siart mynd i weithio, ond wnes i, yr athrawes a'r cynorthwyydd parhau a sicrhau ein bod ni'n gwneud pob dydd, ac erbyn diwedd fy nghyfnod yn y dosbarth, teimlais fod hwn wedi gweithio. Roedd y plentyn dal i ymddwyn yn wael ar adegau (tipyn llai o adegau) ond roedd o hyd yn drist i weld ei hun yn colli dinosor, ac yn awyddus i ennill y dinosoriaid yn ôl, ac yn fwy awyddus i fod yn rhan o'r dosbarth, a bod yn ffrindiau gyda'r plant eraill, lle nid oedd yn ymddwyn yn y ffordd yma cyn y siart. Dangosir bod camau mwy 'traddodiadol' yr ysgol ddim yn effeithiol felly rhaid 'meddwl tu allan i'r bocs' fel petai, gyda rhai o'r plant.







Mae'r 4 llun uchod yn dangos gwersi yn yr ardal agored wnes i gyda'r dosbarth derbyn. Mae'r 2 llun gyntaf yn dangos gwers Tric a Chlic yn yr ardal agored, lle oedden nhw'n ffurfio geiriau a gweithio fel grŵp i ffurfio geiriau gwahanol. Roedden nhw hefyd yn defnyddio sialc i ysgrifennu geiriau ar y llawr. Teimlais fod y wers yma yn ffordd dda o gael y plant i ymarfer ffurfio llythrennau a geiriau tu allan i'r dosbarth, a wnaethon nhw gyd fwynhau defnyddio'r sialc a chwilio am y teils i ffurfio geiriau cyfan. Roedd hefyd yn dda iddyn nhw weithio fel grŵp a datblygu sgiliau cyfathrebu. Mae'r 2 llun olaf yn dangos her wnaethon ni wneud ar dân gwyllt, a synau tân gwyllt. Roedd yn her oedd y plant yn gallu gwneud ar ôl orffen y dasg ffocws, a themlais fod hwn wedi gweithio'n dda am eu bod nhw'n defnyddio eu dychymyg i edrych a threialu synau gwahanol. Serch hynny, os byddwn yn gwneud y wers eto, fyddwn yn mynd a llai o blant allan ar unwaith, am ei fod yn anoddach rheoli ymddygiad, ac oedd y un neu ddau o'r plant yn crwydro i chwarae.

Amser 1 awr	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)
10 munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Gofyn pwy sy'n cofio beth ni wedi siarad am o'r blaen (y wers flaenorol) sut ydyn ni'n bod yn ffrindiau caredig? Gofyn pwy ydyn yn siarad ag ynglŷn â phroblemau a phwy i siarad ag os oes 'na phroblem gyda nhw, ac os ydyn nhw'n drist bod nhw'n dod i siarad ag athro- teimlo bod nhw'n ansicr a sut i ddelio gyda rhai emosiynau Ail adrodd i sicrhau dealltwriaeth
35	

Mae'r llun uchod yn dangos cyfnod agoriadol wers wnes i ddysgu i'r dosbarth derbyn. Mae'n esiampl o ddysgu uniongyrchol, lle oeddwn yn eistedd o flaen y dosbarth yn dysgu, a siarad yn uniongyrchol gyda'r plant. Roedd yn wers llythrennedd/iechyd a lles yn ffocysu ar fod yn ffrindiau da a bwlio (roedd yn wythnos wrth fwlio ar adeg y wers). Roedd y ffyrdd yma o addysgu yn ffordd dda o ddelio gyda'r pwnc, ac yn fy ngalluogi i ofyn cwestiynau effeithiol a gweld beth oedden nhw'n cofio o'r wers

flaenorol. Wnes i geisio cadw'r cyfnod agoriadol yma yn fyr am fod yn anodd cadw sylw 32 o blant wrth eistedd ar garped bach, ac erbyn y diwedd oedd y plant yn dechrau diflasu. Wnaeth hwn fy nysgu sut i gadw sylw'r plant yn well, a wnaeth fy nysgu bod angen sesiynau carped yn fyr i sicrhau ymddygiad da a chadw sylw.

Myfyrdod Beirniadol

Thursday, 19 December 2019 12:14

Am y 5 wythnos diwethaf, rwyf wedi bod yn cwblhau bloc 1 o fy Mhrofiad Dysgu Proffesiynol yn fy ysgol leoliad, yn dysgu yn y dosbarth derbyn.

Pwrpas y bloc cyntaf yma yw i ni fel darpar athrawon cael ein profiad cyntaf o addysgu dosbarth ar ein pen ein hunain. Tra fy mod yn fy ysgol leoliad, wnes i sicrhau fy mod yn gweithredu ar holl egwyddorion addysgegol ag amlinellir Graham Donaldson yn Dyfodol Llwyddiannus, sef cwricwlwm Newydd Cymru 2022. Mi fyddaf yn ffocysu yn awr ar sut yr wyf wedi gweithredu'r 3 canlynol- yn gyntaf, mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu. Yr ail, sef drwy addysgu a dysgu da, bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer, ac yn olaf, mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol.

Daeth cysyniad dysgu draws gwricwlaidd yn gyntaf o feddwl John Dewey, a oedd yn credu, ymhlith a chredoau eraill, ddylai pynciau cael ei addysgu wedi plethu, ac nid o hyd ar eu pen eu hun. Credau Dewey ddylai addysg fod fel bywyd go iawn, felly ddylai'r pynciau cael ei blethu yn yr un ffordd ag ydyn nhw yn fywyd go iawn, hefyd. (Gen Connection, 2019)

I aralleirio beth ddywed Hilary A. Radnor yn ei llyfr Across The Curriculum (1994), os ydym am i'n plant i fod yn fedrus mewn mwy 'na gwrando, darllen ac ysgrifennu goddefol, yna mae'n rhaid i'r athro weithredu strategaethau eraill yn ei addysgu a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i'r disgyblion gyfathrebu ar lafar ac yn gorfforol ac yn weledol, i nodi ac ymgodymu â datrys problemau, cymryd rhan weithredol mewn gwaith tîm er mwyn datblygu eu sgiliau cymdeithasol, a chael y math o waith cartref sy'n eu hannog i drefnu a rheoli dysgu annibynnol. Hynny yw, bod gweithio'n draws gwricwlaidd yn fuddiol i'r plentyn ar y cyfan ac yn holistaidd, ac maent yn helpu datblygu'r plentyn ar y cyfan, ac nid dim ond yn academiaidd.

Cytunwyd Andrew Price gyda barn bositif Radnor ar addysgu traws gwricwlaidd, yn dweud *"teachers have witnessed first-hand the benefits of taxing thinking skills through cross curricular collaboration, and the extent to which this aids the transferability of knowledge and skills by students."* (2010).

Er bod 'na fanteision, ma 'na ddadl yn erbyn, hefyd.

"Links between curriculum subjects have also been closely associated with endangering creative thinking... Making connections between subjects has, however, become controversial. The new National Curriculum in England (DfE 2013) omits reference to cross-curricular links"- Barnes, J. (2015)

Dywed Jonathan Barnes yn y dyfyniad uchod, bod Cwricwlwm Cenedlaethol Lloegr wedi gwahardd cyfeiriad at gysylltiadau traws cwricwlaidd, sydd yn wahanol i gwricwlwm Cymru, sydd wedi cynnwys yr egwyddor draws gwricwlaidd yma yn nrafft y cwricwlwm Newydd ar gyfer 2022.

Wnes i addysgu gwersi traws cwricwlaidd tra fy mod i yn addysgu yn y dosbarth derbyn, a ddangosir yr esiamplau 3 gwers wahanol- gwers yn seiliedig ar Ddydd Sul y Cofio, Diwrnod y Cofio a'r Pabi Coch. Yr ail, sef gwers wedi ei seilio ar ddiogelwch noson tân gwyllt, a'r drydedd wers, sef gwers lle wnes i gyfuno Stori'r Geni a siapau 2D.

Teimlais ar y cyfan, fy mod i wedi llwyddo i ddysgu gwersi traws cwricwlaidd yn dda. Mae'r ail esiampl draws gwricwlaidd yn dangos y wers gyntaf wnes i ddysgu, sef wers Iechyd a Lles/Llythrennedd. Roedd yn ddiwrnod tân gwyllt, felly wnes i addysgu gwers ar ddiogelwch tân gwyllt. Tasg y plant oedd dewis rheol a wnaethon ni sôn amdani, a thynnu llun o'r rheol. Yna, rhaid iddyn nhw ysgrifennu beth oedd y rheol, e.e. 'cadw anifeiliaid anwes yn y tŷ ar noson tân gwyllt'. Wnaeth y plant fwynhau cynnig rheolau eu hunain ar gyfer y dasg, yn ogystal â'r rheolau oedd gen i yn barod wedi ei ysgrifennu ar boster wnes i greu. Teimlais fod y dasg yn addas ar gyfer y plant yn y grŵp gallu cryfach, sef y grŵp glas, ac ar gyfer rhai yn y grŵp melyn, sef y grŵp canolig. Roedd y grŵp coch, sef y grŵp mwyaf gwan wedi ffeindio'r dasgyn anodd, gyda gormod o ysgrifennu, am fy mod i heb wahaniaethu'r dasg digon da rhwng y 3 grŵp, ond credaf fod hwn oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod y plant yn dda iawn eto, ac yn ansicr o'i gallu, gan mai hwn oedd yn o'r gwersi cyntaf wnes i addysgu. Serch hynny, roedd yn ymarfer da i'r plant cael ysgrifennu a ffurfio brawddegau llawn, ac oeddent wedi dysgu am reolau iechyd a diogelwch, ac wedi adnabod peryglon phosib o fod allan ar noson tân gwyllt. Y brif wers wnes i ddysgu ar ôl hwn oedd sut i wahaniaethu'n well ar gyfer y plant, a dechrau dysgu i ddefnyddio llythrennedd mewn meysydd ddysgu a phrofiad eraill.

Erbyn i mi addysgu'r wers yn yr esiampl olaf, yn fy wythnos olaf, teimlais fy mod wedi dod i ddeall yn well sut i gyfuno gwersi'n draws gwricwlaidd. Gwers dyniaethau oedd hi, gyda'r plant yn defnyddio gwybodaeth flaenorol o wersi siapau 2D i greu golygfa o stori'r geni. Tasg ar gyfer y grŵp glas ac un neu ddau o'r grŵp melyn oedd hwn am fy mod yn gwybod erbyn hyn fod y dasg mynd i fod yn rhy anodd i'r grŵp coch a mwyafrif o'r grŵp melyn. Ar ôl iddyn nhw weld esiampl o waith da (golygfa wnes i greu yn gynharach), wnaeth y plant fynd ati yn syth i greu'r olygfa yma gydag ond ychydig o gymorth. Roedd y dasg yn addas, a wnaethon nhw fwynhau defnyddio'r siapau a'r wybodaeth oedd ganddyn nhw a gwersi blaenorol mewn cyd-destun gwahanol.

Wnes i ddysgu bod angen i'r gwaith llifo rhwng un maes i'r llall, fel dywed Linda Pound a Trisha Lee yn eu llyfr 'Teaching Mathematics Creatively' (2015), nid yw gwneud symiau ar bapur siâp pwmpen gan ei fod yn galan gaeaf yn ychwanegu dim, dim ond tynnu oddi wrth fathemateg a chelf, ac mae cwricwlwm cwbl integredig yn

cynnwys llifo o un maes i'r llall.

Mae Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) yn ffordd o asesu ffurfiannol, sydd yn ffordd dda o asesu cynnydd y plant o ddydd i ddydd yn y dosbarth.

"It is usually informal, embedded in all aspects of teaching and learning, and conducted by different teachers as part of their own diverse and individual teaching styles" -Paul Black et al (2003)

Mae AagD yn digwydd yn naturiol mewn gwersi, ac fel dywed Paul Black, mae'n anffurfiol iawn, yn digwydd tra bod ni fel addysgwyr yn gweithio gyda phlant o fewn y dosbarth i geisio gweld beth maen nhw'n gwybod yn barod, a sut orau i symud ymlaen mewn gwersi dyfodol.

Cytunwyd Llywodraeth Cymru gyda hwn, yn dweud ar wefan Hwb (2010), drwy asesu ar gyfer dysgu, gall athrawon gweld ar beth mae angen treulio mwy o amser a ble allwn arbed amser er mwyn peidio bod yn gaeth i gynlluniau gwaith.

I aralleirio Keogh, Dabell a Naylor yn eu llyfr 'Mathematics Inside the Black Box' (2006), mae asesu ar gyfer dysgu yn rhoi gwybodaeth ystyrlon i ni am ein bod yn dysgu wrth i ni ddatblygu yn y dosbarth, ac felly gall hwn fod o fydd a helpu'r asesiad. Mae meddwl yn hyrwyddo dysgu, mae dysgu'n galluogi asesu i ddigwydd, ac mae asesu yn ysgogiad i feddwl a dysgu.

Felly, drwy asesu yn y ffordd hon, maent yn cyfuno meddwl, dysgu ac asesu mewn ffordd wedi ei gyfuno ac yn integredig.

Er bod sawl un yn canmol asesu ar gyfer dysgu fel ffordd dda o asesu a gweld cynnydd, mae Ninomiya Schuichi yn anghytuno yn ei herthygl 'The Possibilities and Limitations of Assessment for Learning: Exploring the Theory of Formative Assessment and the Notion of "Closing the Learning Gap"' (2016). Mae hi'n dweud yn yr erthygl yma all y ffordd yma o asesu arwain at ffordd o ddysgu sy'n fecanistig, lle mae fwy o bwyslais ar wella perfformiad yn hytrach 'na dysgu, ac mae 'na hefyd bwyslais ar fonitro cynnydd y disgyblion, a dydy e ddim yn cyfrannu at ddatblygu cyfrifoldebau'r disgyblion.

Tra 'mod i'n haddysgu, wnes i sicrhau fy mod yn defnyddio'r cynllun marcio oedd yr athrawes yn defnyddio i gadw cysondeb ar gyfer y plant. Yn amlwg yn y dosbarth derbyn, allai'r plant ddim darllen sylwadau, felly oeddwn yn defnyddio sticeri gyda chymeriadau arnynt, a defnyddio pinc 'perffaith' a gwyrdd 'gwella' ar gyfer y marcio. Roedd y plant yn ymwybodol bod pinc yn golygu perffaith, ac oedd ddim angen newid unrhyw beth yn y gwaith, a bod gwyrdd yn golygu bod angen ymarfer, newid neu weithio ar y gwaith. Fel y dangosir yn y lluniau, wnes i roi sticer 'Bili' a 'Ffranc' yn y llyfr, a oedd yn golygu bod y plentyn wedi defnyddio bys i wneud bwllch rhwng y

geiriau (Bili) yn berffaith, ond mae angen gweithio ar ffurfio llythrennau (Ffranc) am ei fod yn wyrdd. Teimlais fod hwn yn gweithio'n effeithiol iawn, gan fod y plant yn glir ac yn deall beth oedd angen gweithio arni. Oeddw'n hefyd ar adegau yn defnyddio cwestiynau gyda'r plant wrth i mi farcio'r gwaith, a gofyn iddyn nhw beth oedden nhw'n meddwl oeddent wedi gwneud yn dda, ac wedyn ticio'r ateb oedden nhw'n rhoi yn binc. Wedyn, oeddw'n holi beth oedden nhw'n meddwl oedd angen gwella yn y gwaith, ac wedyn roeddw'n ticio'r ateb yn wyrdd. Roedd hwn hefyd yn effeithiol am fod llais y plentyn yn cael ei glywed, ac oedd yn rhoi cyfle i'r plant hunan asesu.

Mae hi'n bwysig bod pwrpas i'r cwestiynau yr ydyn yn gofyn a'i bod nhw'n werth gofyn, ac mae'n bwysig bod unrhyw gwestiynau yn hyrwyddo myfyrio meddylgar, lle mae'r disgyblion i gyd yn cael ei hannog i gymryd rhan. (Llywodraeth Cymru, 2010)

Dangosir yr esiamplau eraill fy mod wedi defnyddio adfyfrio ar ddiwedd y wers a hefyd atebion anghywir i asesu'r plant, ac mae'r rhain yn ffordd wych o asesu, yn fy marn i, am ei bod nhw'n ffordd gyflym, naturiol o weld cynnydd y plant ac i weld ble i fynd nesaf a phwy sydd angen cymorth.

Wrth addysgu, mae'n bwysig ein bod ni'n defnyddio cymysgedd o ddulliau gwahanol, yn ogystal â dysgu uniongyrchol.

Pan oeddw'n gyda'r dosbarth derbyn, oeddw'n yn hoff o fynd a'r plant allan i'r awyr agored i addysgu, am ei fod yn ffordd hwylus, wahanol i'r plant dysgu'r union un peth allwn nhw ddysgu yn y dosbarth. Teimlais fod hwn yn gweithio yn well gyda llawer o blant, am ei bod nhw'n gallu dysgu'n well tu allan i ddosbarth, ac yn mwynhau'r dysgu llawer yn fwy am ei bod nhw ddim yn teimlo dan bwysau yn y dosbarth. Esiaml o wers fel hyn oedd y wers Tric a Chlic yn yr awyr agored, a ddangosir yn yr esiamplau. Wnes i fynd a grŵp allan i ffurfio geiriau a defnyddio teils i wneud hwn, a sialc i ysgrifennu ar y llawr. Teimlais fod hwn yn ffordd dda o ymgysylltu â rhai o'r plant am ei bod nhw'n cael fwy o hwyl tu allan a ddim o reidrwydd yn sylweddoli eu bod nhw'n dysgu, ond meddwl mai chwarae oedden nhw.

Mae'r dyfyniad hon yn cefnogi'r cysyniad yma;

“Decisions are so often made to engage students in interesting activities, to excite them to participate in learning, and to ensure that, when the bell rings, they have completed the assigned tasks and at least enjoyed the activity.” -Hattie, J. (2017)

Teimlaf fod cael plentyn i fwynhau mewn gwrs yn hanner y frwydr, fel petai, a gall olygi eu bod nhw wedi ymgysylltu yn fwy yn y wers, hefyd.

Mae astudiaeth gan Ming Kuo, Matthew Browning a Milbert Penner, sef “Do Lessons in Nature Boost Subsequent Classroom Engagement?” (2018) wedi darganfod bod

plant yn ffocysu'n well yn yr ystafell ddosbarth ar ôl gwrs ardal agored nag oedden nhw ar ôl wrs yn y dosbarth, ac oedd athrawon yn cael eu tarfu'n llai wrth addysgu, yn galluogi'r athrawon i addysgu'n hirach heb dorri ar draws.

Mae'r drydedd esiampl o ddefnyddio dulliau gwahanol o addysgu, yn dangos gwrs lle wnes i addysgu'n uniongyrchol, yn siarad gyda'r dosbarth ar y carped. Teimlais fod hwn yn gweithio'n llai effeithiol gyda'r grŵp ar y cyfan, i gymharu â gweithio gyda grwpiau ffocws, lle oedd yn rhwyddach i gadw sylw ac ymgysylltu'n well gyda'r dasg. Roedd 32 o blant ifanc yn y dosbarth derbyn, ac oedd yn anodd cadw trefn arnynt pan oedden nhw wedi eu gwasgu ar garped bach.

Serch hynny, mae astudiaethau yn dangos bod y dull addysgu 'dosbarth cyfan', yn fwy effeithiol ar y cyfan na grwpiau yn llai. Yn eu llyfr "Effective Teaching: Evidence and Practice" (2018), mae Daniel Muijs a David Reynolds yn dweud bod yn rhwyddach monitro'r dosbarth cyfan wrth addysgu yn hytrach nag addysgu grwpiau bach/unigolion, a hefyd maent yn galluogi'r athro i newid gweithgareddau ac ymateb yn gyflym i arwyddion bod y plant yn colli diddordeb neu'n diflasu.

Wnes i a'r athrawes ddosbarth gytuno i dreialu'r siart ymddygiad a ddangosir yn yr esiamplau, i weld os oedd yn ffordd effeithiol o reoli ymddygiad un plentyn yn y dosbarth. Roedd y plentyn yn awtistig, ac oedd ddim yn ymateb i reolau 'arferol' yr ysgol ynglŷn ag ymddygiad.

Wnes i ymchwilio i mewn i sut orau i mi gefnogi'r plentyn yma yn y dosbarth, am fy mod yn angen sicrhau ei bod yn cael y cyfle orau i ddysgu, a hefyd sicrhau ei fod yn ddiogel, yn ogystal â phlant eraill yn y dosbarth, oherwydd ei ymateb i'r rheolau arferol oedd sgrechian, cicio, ac i frwydro. Cefais lawer o gymorth o wefan y National Autistic Society (2018), a wnaeth gynnig defnyddio cefnogaeth weledol, fel y siart, neu ddefnyddio beth sy'n diddori'r plentyn, sef dinosoriaid yn yr achos hwn. Wnaethon nhw hefyd awgrymu cael perthynas dda gyda'r teulu adref. Roedd gan yr athrawes ddosbarth perthynas gyda'r rhieni yn barod, ond roedd rhaid i mi sicrhau fy mod yn datblygu perthynas hefyd. Roedd un dinosor yn cael mynd adref gyda'r plentyn ar ddiwedd y dydd, ac wedyn cael ei ddychwelyd i'r ysgol y bore trannoeth, fel bod y plentyn yn gallu dangos i'r rhiant ei bod wedi ymddwyn yn dda yn yr ysgol y diwrnod yna.

Drwy greu'r siart yma, roedd yn ffordd weledol i'r plentyn weld ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le drwy golli dinosor. Roedd yn awyddus wedyn i ymddwyn yn dda yn y dosbarth i ennill dinosor yn ôl. Teimlaf mai hwn oedd peth orau'r siart- bod gan y plentyn y cyfle i 'redeem' ei hun, fel petai. Roedd y ffaith bod y cyfle i ennill y dinosor yn ôl yn annog y plentyn i ymddwyn yn dda, yn lle sgrechian, crio a pharhau i ymddwyn yn wael fel yr oedd wrth ddilyn rheolau arferol yr ysgol. Ar ôl ychydig o wythnosau, wnaeth ymddygiad y plentyn wella ar y cyfan, ac oedd y siart yn cael ei ddefnyddio'n llai aml. Byddaf yn sicr i gadw'r dull yma mewn cof ar gyfer y dyfodol, er fy mod yn adnabod bod pob plentyn yn wahanol.

Wrth symud ymlaen, byddaf yn parhau i addysgu yn defnyddio cymysg o ddulliau, ac er bod y dull 'dosbarth cyfan' heb weithio mor effeithiol gyda'r dosbarth derbyn, ond gyda dosbarthiadau'n henach, neu ddosbarthiadau gyda llai o ddisgyblion efallai bydd yn llwyddo. Hefyd, wrth i mi ddatblygu a magu hyder fel athro, teimlaf bydd fy ngallu a thechnegau rheoli dosbarth yn gwella.

I grynhoi, teimlaf wrth i'r wythnosau mynd yn ei blaen, fy mod i wedi gweithredu'r egwyddorion yn well ar y cyfan, wrth i mi fagu hyder o fewn y dosbarth a magu hyder yn fy ngallu i fel athro. Byddaf yn sicrhau wrth symud ymlaen a chynllunio gwersi fy mod yn cadw'r egwyddorion mewn cof, ond bod rhaid bod yn ofalus wrth gynllunio i sicrhau bod y gwersi yn addas ar gyfer y dosbarth, neu unigolion yn y dosbarth. Drwy ddarllen y drafft o Ddyfodol Llwyddiannus (2015) teimlaf fod 'na phwyslais ar asesu, gyda phennod gyfan yn sôn amdani. Os felly, oes angen i ni ffocysu ar rai dibenion yn fwy nag eraill wrth addysgu, neu oes angen i ni weithredu'r holl egwyddorion yn gyfartal?

Wrth i mi fynd ati at yr ail bloc o PAP 1 lle fyddaf yn addysgu plant yn hyn, bydd hwn yn cyflwyno heriau newydd. Rwyf yn sicr byddaf yn gwneud cynnydd a magu fwy o hyder eto wrth i mi ddysgu, wrth gadw'r egwyddorion mewn cof i sicrhau fy mod yn addysgu'r plant i orau fy ngallu.

2767 o eiriau.

Barnes, Jonathan. "An Introduction to Cross Curricular Learning." *Researchgate.Net*, Mehefin 2015, www.researchgate.net/publication/274313611_An_Introduction_to_Cross-Curricular_Learning.

Black, Paul, et al. *Assessment For Learning: Putting It into Practice*. Open University Press, 2003.

Donaldson, Graham. *Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu Yng Nghymru Chwefror 2015*. 2015.

Gen Connection. "John Dewey Summary of Theories." *Gen Connection*, 2019, genconnection.com/azusa/572/Dewey.jjolliff_J.pdf.

Hattie, John. *Visible Learning for Teachers : Maximizing Impact on Learning*. London, Routledge, 2017, t. 35.

Hodgen, J, and D William. *Mathematics Inside the Black Box*. G&L Assessment, 2006.

Kuo, Ming, et al. "Do Lessons in Nature Boost Subsequent Classroom Engagement? Refueling Students in Flight." *Frontiers in Psychology*, 2018, www.frontiersin.org/articles/10.3389/fpsyg.2017.02253/full.

Llywodraeth Cymru. "Sut i Ddatblygu Meddwl Ac Asesu Ar Gyfer Dysgu Yn Yr Ystafell Ddosbarth." *Hwb.Gov.Wales*, Llywodraeth Cymru, Tach. 2010, hwb.gov.wales/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf.

National Autistic Society. "Classroom - National Autistic Society." *Autism.Org.Uk*, 2018, www.autism.org.uk/professionals/teachers/classroom.aspx.

Pound, Linda, et al. *Teaching Mathematics Creatively*. Routledge, 2015.

Price, Andrew. "What Are the Benefits for Teaching and Learning of Cross-Curricular Work Using Thinking Skills, Techniques and Language?" National Teacher Research Panel, 2010.

Radnor, Hilary A. *Across The Curriculum*. Cassell, 1994, t. 25.

Shuichi, Ninomiya. *The Possibilities and Limitations of Assessment for Learning: Exploring the Theory of Formative Assessment and the Notion of "Closing the Learning Gap."* Maw. 2016.